OPERASONIC



Photo: Charlie J, ‘Get Gigging’ 2025

# Pecyn Gwybodaeth

# Recriwtio Ymddiredolwyr

# Haf 2026

Shwmae!

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwr yn Operasonic.

**AMDANOM NI**

Ein gweledigaeth yw dod â chymunedau yng Nghasnewydd at ei gilydd drwy gerddoriaeth. Er mwyn gwireddu hyn, rydym yn darparu profiadau cerddorol amrywiol a hygyrch gyda thrigolion Casnewydd, ac yn cefnogi datblygiad y gymuned greadigol.

Sefydlwyd Operasonic yn 2014, ac rydym bellach yn ein hail ddegawd. Rydym yn elusen yng Nghasnewydd sy'n groesawgar a chynhwysol. Rydym wedi ymrwymo i:

1. Wella sgiliau cerddorol a chreadigol trigolion Casnewydd, yn ogystal â'u sgiliau eraill, boed yn sgiliau ar gyfer cyflogaeth neu'n sgiliau rhyngbersonol;
2. Ehangu gweithlu cerddorol a chreadigol Casnewydd, o ran ei faint a'i ansawdd, drwy ddatblygu pobl a chyfleoedd;
3. Wella lles trigolion Casnewydd drwy weithgarwch cerddorol a chreadigol sy'n cynyddu hunanhyder, ymreolaeth, hunan-barch a chymhelliant;
4. Gryfhau ymdeimlad pobl o falchder a'u dealltwriaeth o'r cymunedau y maent yn perthyn iddynt, drwy ymgysylltu â cherddoriaeth a diwylliant;
5. Gryfhau'r cysylltiad rhwng Operasonic a chymunedau Casnewydd, a bod yn rhan o'r ymdrech i hyrwyddo cyfnewid diwylliannol; a
6. Ddatblygu gwydnwch y sefydliad ymhellach, gan gynnwys model ariannol sefydlog, safle clir a threfniadau adrodd clir, a llywodraethu hyd yn oed yn fwy cynrychioliadol.

Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau, partneriaid, rhanddeiliaid a'r gweithlu creadigol i ddarparu profiadau cerddorol amrywiol a hygyrch – boed hynny'n sesiynau wythnosol, neu'n gynnyrch creadigol fel ffilm neu berfformiad. Mae'r gwaith yn berthnasol i ystod o oedrannau, profiadau bywyd, ardaloedd lleol a hunaniaethau, yn ogystal â phob math o gerddoriaeth. Mae rhai o'n prosiectau presennol yn cynnwys:

- Captain CaPaTa: Ein opera i blant iau. Cawsom amser gwych yn ystod y cyfnod ymchwil a datblygu, gan weithio gyda grŵp anhygoel o bobl greadigol i ddatblygu opera i fabanod sy'n defnyddio BSL, Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â chynnig profiad synhwyraidd i feddyliau sy'n datblygu! Y cam nesaf fydd datblygu'r opera yn barod ar gyfer teithio yn ystod gwanwyn 2027.
- Prosiect Y Gân Gyntaf (The Lullaby Project): Cysyniad prosiect ysgrifennu caneuon a grëwyd gan Carnegie Hall ac Operasonic. Mae Operasonic yn bartner yn y prosiect. Eleni, rydym wedi bod yn datblygu'r prosiect yn y gymuned leol, ac yn darparu hyfforddiant er mwyn datblygu'r gweithlu creadigol yng Nghasnewydd.
- Prosiectau Gypsy Stars: Mae ein prosiectau Gypsy Stars yn dod â theuluoedd o'r gymuned Roma yng Nghasnewydd ynghyd i ganu a bod yn greadigol. Rydym yn gweithio'n agos gyda Romano Dzivipen (grŵp cymunedol Roma) a phartneriaid ieuenctid a chymunedol eraill.

- Sesiwn gerddoriaeth reolaidd yng Nghanolfan Eden Gate: Rydym yn gweithio gyda phobl sy'n profi digartrefedd. Yn ddiweddar, aethom â'r grŵp i recordio eu cân yn stiwdios COBRA, ac rydym yn paratoi ar gyfer perfformiad.
- Harmonious Senses/Sound Sense: mewn partneriaeth â SenCom (tîm synhwyraidd a chyfathrebu), rydym yn darparu prosiectau cerddorol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n profi colled clyw neu fyddardod.
- Carfan Operasonic: Yn cynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddiant i gerddorion ifanc.

Rydym yn dîm bach o ymddiriedolwyr, staff a gweithwyr llawrydd sy'n cael effaith ledled Casnewydd. Mae ein gwaith bron bob amser yn cael ei wneud mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, elusennau neu wasanaethau cyhoeddus eraill; mae'r rhan fwyaf o'r partneriaethau hyn yn rhai hirdymor a chryf, ac wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd. Ers 2024, rydym wedi cael rhywfaint o gyllid craidd/refeniw, ac rydym hefyd yn chwilio am gyllid prosiect ar gyfer gwaith penodol (e.e. cyllid y Loteri; ymddiriedolaethau a sefydliadau).

Gallwch ddysgu mwy am waith Operasonic drwy ymweld â'n gwefan: [www.operasonic.co.uk/cy](www.operasonic.co.uk/cy)

**AM Y BWRDD AC AMDANOCH CHI**

Rydym yn mynd drwy gyfnod o ddatblygu'r sefydliad a chynllunio busnes. Ar hyn o bryd, rydym yn chwilio am bobl sydd â sgiliau a phrofiad ar lefel strategol yn y meysydd canlynol:

- Rheoli newidiadau
- Yr amgylchedd penodol (e.e. ar gyfer elusennau celfyddydol)
- Llywodraethu a deddfwriaeth/cydymffurfiaeth yng nghyd-destun elusennol

Gallai hyn fod drwy rôl lywodraethu neu wirfoddoli arall, neu drwy gyflogaeth â thâl. Yn ogystal â'r uchod, ac er mwyn ychwanegu at yr hyn sydd gennym ar y bwrdd, byddem yn croesawu unrhyw un sydd â sgiliau a phrofiad yn rheoli ac adnoddau dynol (HR) a/neu godi arian.

Rydym yn chwilio am bobl sydd â phrofiad da o wneud penderfyniadau strategol a gweithio fel rhan o fwrdd elusen, gan gynnwys dealltwriaeth o'r dyletswyddau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyfreithiol o fod yn gyfarwyddwr cwmni ac yn ymddiriedolwr elusen. Fel arfer, mae Bwrdd Operasonic yn cyfarfod bob chwarter, er ein bod ar hyn o bryd yn cyfarfod bob dau fis.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n rhannu angerdd dros gerddoriaeth a chymunedau Casnewydd, ac sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Rôl ymddiriedolwr yw arwain strategaeth yr elusen a goruchwylio ei gwaith, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth, ac yn bodloni ein gofynion cyfreithiol, ariannu ac eraill.

Gallwch ddysgu mwy am rôl ymddiriedolwr ar wefan y Comisiwn Elusennau yma.

Mae Operasonic yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

**AM YMGEISIO**

Byddai ein cadeirydd ymddiriedolwyr, Rhian Hutchings, yn hapus iawn i ateb unrhyw gwestiynau ac i drafod y rôl gyda chi. Felly, os hoffech drefnu galwad ffôn, anfonwch e-bost ati ar rhian@operasonic.co.uk.

Os hoffech wneud cais, anfonwch eich CV ac e-bost byr/llythyr eglurhaol at Rhian (drwy'r cyfeiriad e-bost uchod), gan esbonio pam mae'r rôl o ddiddordeb i chi a sut y byddai eich sgiliau a'ch profiad o fudd i Operasonic.

Fel dewis arall yn lle cyflwyno cais ysgrifenedig, gallwch sôn am eich sgiliau a'ch profiad mewn recordiad fideo/sain byr (hyd at dri munud). Rydym yn awgrymu defnyddio WeTransfer i anfon y fideo er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd yn llwyddiannus. Ar ôl i ni dderbyn eich mynegiant o ddiddordeb, bydd Rhian yn cysylltu â chi i gael sgwrs bellach am y camau nesaf.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig eraill er mwyn eich galluogi i wneud cais am y rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at rhian@operasonic.co.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **dydd Mercher, 30ain o Fedi 2026.**